
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Tyfu er mwyn yr Amgylchedd

# Datganiadau o Ddiddordeb – Ffenestr 5

# Sut i gwblhau

# Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiadau o Ddiddordeb Ffenestr 5 – sut i gwblhau

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i gwblhau eich Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Ffenestr 5.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu'r canllawiau hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn wynebu problemau neu'n methu â chael mynediad i'n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG45397 ISBN digidol: **978-1-80364-337-3**

**Cynnwys**

Taliadau Gwledig Cymru
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan ........ 4
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan ........ 5
Tudalen Ffurflenni ........ 5
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb – Dechrau Cais ........ 6
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb ........ 7
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb ........ 8
Cwestiynau Cymhwysedd ........ 9
Dewis Eitemau ........ 11
Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 15
Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 17
Ar ôl cyflwyno'n llwyddiannus ........ 18

**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan**

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Enw Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan

I weld ‘Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb’ cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar hafan RPW Ar-lein, fel y gwelwch isod





Byddwch yn mynd i’r dudalen ‘Ffurflenni’




I newid yr iaith ar unrhyw adeg cliciwch ar y botwm yn y bar ar y gornel dde uchaf ar RPW Ar-lein. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis iaith ar gyfer gweld Datganiad o Ddiddordeb Tyfu er mwyn yr Amgylchedd.


## Tudalen Ffurflenni

Unwaith y byddwch wedi dewis y tab ‘Ffurflenni’ byddwch yn gweld y Ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.




## Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb – Dechrau Cais

Unwaith y byddwch wedi darllen y Llyfrynnau Canllaw, i ddechrau llenwi eich Datganiad o Ddiddordeb cliciwch ar y Botwm Dechrau Cais.



## Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb


Dyma’r Cyflwyniad sy’n darparu gwybodaeth am Tyfu er mwyn yr Amgylchedd.




Cliciwch ar y botwm nesaf ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.

# Tyfu er mwyn yr Amgylchedd – Datganiad o Ddiddordeb


Dyma’r Hysbysiad Preifatrwydd y mae’n rhaid i chi ei ddarllen




Cliciwch ar y botwm Nesaf ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.


## Cwestiynau Cymhwysedd

Mae’n rhaid i chi ateb bob cwestiwn ar y dudalen hon.




Mae camau gwirio data sylfaenol yn rhan o’r dudalen hon a bydd unrhyw negeseuon camgymeriad neu wybodaeth yn ymddangos unwaith y byddwch yn ‘Arbed’ neu’n clicio ‘Nesaf’

Ni fydd y negeseuon gwybodaeth yn eich atal rhag cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, ond bydd yn amodol ar wirio cymhwysedd pellach. Cyfeiriwch at lyfryn Rheolau Cyffredinol Tyfu dros yr Amgylchedd am ragor o wybodaeth am gymhwysedd.





Cliciwch ar y botwm Nesaf ar ôl i chi ateb yr holl gwestiynau.

## Dewis Eitemau


Dewiswch y cnwd ar gyfer pob parsel cae unigol a dyna fydd eich cais.


Ar gyfer pob cnwd a parsel cae sydd ei angen cliciwch Ychwanegu Eitem yna dewiswch y cnwd a'r parsel cae sydd ei angen.




Unwaith y byddwch wedi clicio'r botwm Ychwanegu Eitem bydd y rhestr o'r eitemau sydd ar gael yn cael eu harddangos mewn cwymplen.

Cyn dewis eich eitemau, cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen y llyfryn canllaw ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd. Bydd yn cynnwys manylebau, cost a sgôr ar gyfer pob eitem.








Unwaith y byddwch wedi dewis eitem, bydd y manylion i'w gweld ar y sgrîn nesaf.


Rhowch faint (arwynebedd) yr eitem (cnwd) ar gyfer pob un o'r parseli cae fydd y cnydau'n cael eu tyfu ynddynt.

Os yw'r cnwd i'w dyfu mewn mwy nag un parsel cae rhaid dewis pob parsel ar wahân gyda'r swm cyfatebol (arwynebedd) wedi'i nodi ar gyfer pob un.


Ni ddylai'r arwynebedd fesul parsel y gwneir cais amdanynt (nifer) fod yn fwy na chyfanswm arwynebedd y parsel minws nodweddion parhaol. Ni fydd y ffurflen yn gadael i chi nodi swm sy'n fwy na hwn.





Cliciwch ar y botwm Safio ar ôl i chi nodi'r nifer




Unwaith y byddwch wedi clicio ar Dewis Lleoliad bydd map yn ymddangos






Gallwch chwyddo mewn neu ddefnyddio’r blwch chwilio i leoli’r parsel tir ble mae’r eitem




Unwaith y byddwch wedi dewis lleoliad yr eitem cliciwch ar y botwm Cwblhawyd, byddwch yna’n dychwelyd i’r sgrîn Dewiswch Eitemau ble y bydd cryno-lun o’r lleoliad ar y map i’w weld.

I ychwanegu eitem arall, cliciwch ar y botwm Ychwanegu Eitem








Unwaith y bydd yr holl eitemau wedi'u dewis bydd y sgrîn Dewiswch Eitemau yn dangos y rhestr o eitemau.

## Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r dudalen hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau rydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu ynghylch unrhyw gamgymeriadau neu wybodaeth o ran eich cais.

Bydd croes goch ar y tudalennau sydd â chamgymeriadau a cewch ddychwelyd i'r tudalennau i wneud newididau drwy glicio yma.



Tyfu er mwyn yr Amgylchedd - Datganiad o Ddiddordeb

Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Safio | Nesaf

Help

- Cyflwyniad ✔
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwysedd ✔
- Dewiswch Eitemau ✔
- Cyflwyno

**Pwysig -** Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgroliwch i lawr os oes angen.

Nid oes Gwallau na Negeseuon Gwybodaeth.

Cyflwyniad

Cymhwysedd

| | |
|---|---|
| A oes gan eich busnes o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cofrestredig cymwys yng Nghymru? | ✔ Oes / Nac Oes |
| A yw eich busnes yn gallu dangos dros 550 o oriau llafur safonol bob blwyddyn? | ✔ Ydy / Nac ydy |
| A yw'ch busnes yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd? | ✔ Ydy / Nac ydy |


Dewiswch Eitemau

**Eitemau a ddewiswyd**

| Cyfeirnod y Map | Cod | Disgrifiad | Nifer | Gwerth |
|---|---|---|---|---|
| GE001 | GE07 | Cnwd gorchudd | 10.00 ha | £1,170.00 |
| | | | **Gwerth y Grant Mwyaf** | £1,170.00 |

Eitemau wedi'u Mapio

Printio | English



Growing for the Environment EOI

Help

- Introduction ✔
- Privacy Notice
- Eligibility ✔
- Select Items ✔
- Submission
  - Errors, Information and Summary
  - Declaration and Undertakings
  - Submit

Select Items

**Selected Items**

| Map Id | Code | Description | Quantity | Value |
|---|---|---|---|---|
| GE001 | GE07 | Cover crops | 10.00 ha | £1,170.00 |
| | | | **Maximum Grant Value** | £1,170.00 |

Mapped Items

**Item:** GE07 - Cover crops

**Quantity:** 10.00 ha

**Value:** £1,170.00

© Crown copyright and database rights 2022. Ordnance Survey 100021874. © Getmapping Plc and Bluesky International Limited 2020. Use of this data is subject to terms and conditions. The information shown on the map is as per 26/05/2022.

Print | Cymraeg | Exit | Previous | Save | Next

Ar ôl i chi wirio'r crynodeb ac ar ôl cywiro unrhyw gamgymeriadau bydd tic gwyrdd wrth pob adran.

## Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau


Mae'n rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r bocs i gadarnhau eich bod wedi'u darllen ac yn cytuno â nhw.




Cliciwch ar y botwm Nesaf ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a'u cymeradwyo.

## Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd cliciwch ar y botwm Cyflwyno.




Unwaith y byddwch wedi cyflwyno byddwch yn derbyn neges yn cadarnhau. Gallwch argraffu'r neges hon ar gyfer eich cofnodion.

**Ar ôl cyflwyno'n llwyddiannus**

Bydd crynodeb o'ch Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd wedi'i gwblhau yn cael ei ychwanegu at y dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl "Dogfennau a dderbyniwyd gan RPW". Sicrhewch eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynir yn drylwyr. Os yw unrhyw ran o'r wybodaeth a ddangosir yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch yn sylwi ar unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych yn wynebu problemau neu'n methu â chael mynediad i'n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.